TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Datganiad Gwasanaeth Seibiant Byr Torfaen 2022

## Cyflwyniad a Chefndir

Cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLl), roedd gofyn i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ysgrifennu 'Datganiad Seibiant Byr' i helpu rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl i nodi:

- amrywiaeth y gwasanaethau mae'r awdurdod lleol yn eu darparu
- y meini prawf ar gyfer cymhwyster
- sut mae modd eu cael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr angen parhaus am wasanaeth seibiant byr yn cael ei gydnabod yn y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n mynd gyda DGCLl. Mae nifer o wasanaethau ataliol wrth galon y Ddeddf.

Bydd seibiannau byr yn cael eu darparu'n aml fel rhan o gynllun gofal a chefnogaeth plentyn anabl trwy asesu a diwallu anghenion gofal a chefnogaeth unigolyn. Bydd hyn yn digwydd yn arbennig pan fo'r seibiant wedi ei fwriadu er mwyn i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau diogel ac ysgogol y tu allan i'r cartref teuluol.

Mae DGCLl wedi cyflwyno newidiadau yn y sector gwasanaethau cymdeithasol fel bod;

- Pobl â rheolaeth dros ba gefnogaeth y maen nhw ei hangen, gan wneud penderfyniadau am eu gofal a chefnogaeth fel partner cyfartal
- Mynediad rhwydd at wybodaeth a chyngor ar gael i bawb
- Gan ofalwyr hawl gyfartal i asesiad ar gyfer cefnogaeth i'r rheiny y maen nhw'n gofalu amdanynt
- Asesiad newydd cymesur yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach
- Dull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth yn bod

O dan DGCLl mae gofyn nawr i Awdurdodau Lleol gael rhestr o wasanaethau ataliol lleol. Mae CBS Torfaen wedi diwygio'r Datganiad Seibiannau Byr Gwreiddiol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## Beth yw Seibiant Byr?

Mae Seibiannau Byr yn rhoi cyfle i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag anableddau dreulio amser i ffwrdd o'u rhieni, yn ymlacio ac yn cael hwyl gyda'u ffrindiau. Maen nhw'n rhoi 'seibiant' i deuluoedd o'u cyfrifoldebau gofal; maen nhw'n rhoi cyfle i rieni ddadflino, gorffwys, treulio amser gyda'u plant eraill a rhoi cyfle i frodyr a chwiorydd fwynhau amser gyda'r teulu hefyd. Ymhlith enghreifftiau o seibiannau byr mae cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau, diwrnodau i'r teulu a gofal cartref.

Gall Seibiannau Byr fod ar ffurf:

- Gofal dydd yn y cartref neu'n rhywle arall
- Gofal dros nos yn y cartref neu'n rhywle arall
- Gweithgareddau hamdden y tu allan i'r cartref
- Gwasanaethau ar gael i gynorthwyo gofalwyr yn yr hwyr, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r haf

Mae seibiannau byr yn digwydd ar nifer o ffurfiau gwahanol a gallant bara unrhyw hyd o ychydig o oriau at rai diwrnodau. Bydd hyd a math y seibiant yn dibynnu ar eich plentyn, person ifanc a theulu. Ni fydd angen yr un lefel o gefnogaeth a seibiant ar bob plentyn a theulu; bydd angen mwy ar rai oherwydd natur a difrifoldeb anabledd y plentyn neu amgylchiadau teuluol. Dyma pam efallai y bydd rhaid i ni asesu eich plentyn a'ch teulu i sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth a seibiannau cywir ar yr adeg gywir.

## Yr Egwyddorion y tu ôl i Seibiannau Byr

- Ni ddylai seibiannau byr fod yno dim ond ar adeg o argyfwng; maen nhw yno i fod yn ymyrraeth gynnar.
- Ni ddylai mynediad at seibiannau byr gael eu barnu ar sail nam yn unig
- Dylai seibiannau byr fod yn ddibynadwy ac yn rheolaidd i fodloni anghenion teuluoedd yn y ffordd orau
- Dylai rhieni gymryd rhan yng nghynllunio gwasanaethau seibiannau byr lleol
- Gall seibiannau byr gael eu hadeiladu ar a'u cynnig gan ddarparwyr gwasanaethau cynhwysfawr
- Gall seibiannau byr fod yn wasanaeth allweddol i hyrwyddo lefelau uwch o hyder a gallu i bobl ifanc sy'n dynesu at fod yn oedolion

## Pa seibiannau byr sydd ar gael?

Efallai bydd angen asesiad ar gyfer rhai seibiannau ac nid ar gyfer eraill. Mae seibiannau byr yn syrthio i 3 grŵp yn fras:

### 1. Cyfleoedd sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn lleol

Dylai pob plentyn a pherson ifanc allu cael cyfleoedd hamdden a gweithgareddau sydd ar gael i bawb. Cyfleoedd yw'r rhain y mae pawb yn gallu cymryd rhan ynddyn nhw fel llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon, grwpiau ieuenctid a meysydd chwarae - efallai bydd tâl i fynd i rai o'r cyfleoedd yma. Ble mae'n bosibl, dyma'r cyfleoedd y dylid eu defnyddio i ddechrau. Mae plant a phobl ifanc anabl, a'u teuluoedd yn rhan o'u cymunedau lleol ac mae'n bwysig bod ganddyn nhw'r cyfle i gymryd rhan mewn cyfleoedd yn lleol. Efallai bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai pobl er mwyn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau yn y gymuned. Rydym wedi ymrwymo at sicrhau fod gan grwpiau a gwasanaethau hollgynhwysol y gefnogaeth y mae eu hangen arnyn nhw i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth am y cyfleoedd yma trwy wefan Cyngor Torfaen, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a phwyntiau gwybodaeth fel ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

### 2. Cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd angen peth cymorth ychwanegol

Rydym yn cydnabod efallai bydd gan deuluoedd anghenion ychwanegol os ydyn nhw'n magu plentyn anabl a bod angen cefnogaeth ychwanegol, efallai, ar y plant a phobl ifanc, naill ai yn y tymor hir neu'r tymor byr, er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae yna wasanaethau ar gael sy'n ceisio cynnig cefnogaeth i atal anawsterau rhag datblygu ac annog plant a phobl ifanc i roi tro ar rywbeth newydd.

Mae gwasanaethau cefnogaeth seibiant byr yn benodol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd a gellir eu darparu ar gyfer grwpiau gwahanol o ran oedran neu nam. Nid yw mynediad yn ddibynnol o reidrwydd ar asesiad ffurfiol o angen ond efallai bydd gan bob gwasanaeth eu meini prawf eu hunain.

Rhoddir enghreifftiau o gyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd angen peth cymorth ychwanegol isod. Codir tâl ar gyfer rhai o'r cyfleoedd.

**Cynlluniau Chwarae Torfaen - Gwyliau hanner tymor a'r haf**

Mae'r rhain yn digwydd mewn nifer o fannau ar draws y fwrdeistref gan gynnwys neuaddau cymunedol a chanolfannau hamdden. Darperir amrywiaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys: cerddoriaeth, drama, celf a chrefft, chwaraeon, a gemau. Mae cynlluniau chwarae'n digwydd dros bedair wythnos dros yr haf a dros bob hanner tymor, gan gynnwys y Pasg. Hefyd, mae yna gynllun chwarae i blant a phobl ifanc ag anableddau am ddau ddiwrnod adeg y Nadolig. Gwneir atgyfeiriadau i'r cynlluniau chwarae trwy gwblhau ffurflen 'Amdanaf i' sydd ar gael o'r Tîm Gwasanaeth Chwarae neu'r Tîm Plant Anabl o fewn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae'r ffurflen yma'n cadw manylion anghenion unigol y plentyn. Pan gaiff y ffurflen hon ei chwblhau, gellir asesu'r lefel o gefnogaeth y mae ei hangen i fynychu'r ddarpariaeth chwarae a gellir nodi unrhyw hyfforddiant ychwanegol y gall fod ei angen ar y gweithiwr / gwirfoddolwr Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen Gwasanaeth Chwarae Torfaen

**Darpariaeth Arbenigol**

Mae'r gwasanaeth chwarae'n rhoi cefnogaeth 1-1 i blant ag anableddau ac anghenion ymddygiadol fynychu darpariaeth chwarae gymunedol. Rhoddir cefnogaeth i blant 5+ oed fynychu clybiau chwarae, cynlluniau chwarae a phrosiectau chwarae arbenigol. I gofrestru'ch plentyn ar gyfer cefnogaeth chwarae 1-1. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen Gwasanaeth Chwarae Torfaen

**Darpariaeth Seibiant Penwythnosau** –

Mae nifer o sesiynau seibiant penwythnos yn digwydd. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau pob penwythnos yn Eglwys Victory Church yn ogystal â Fferm Greenmeadow, y Clwb Lego a'n Clwb Sinema misol. Dim ond trwy atgyfeiriad y gellir mynd i'r sesiynau yma. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen Gwasanaeth Chwarae Torfaen

**Clybiau ar ôl ysgol -**

Mae'r sesiynau yma'n digwydd yn Ysgol Crownbridge. Mae dwy sesiwn yr wythnos, o 3.30pm tan 5.30pm ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Mae'r rhain i blant a phobl ifanc 8 oed+ sydd ag anghenion ychwanegol, cymhleth a heriol. Codir tâl o £6 y sesiwn ar gyfer y gwasanaeth yma. I fynd ar y ddarpariaeth yma, cysylltwch â Gwasanaeth Chwarae Torfaen. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen Gwasanaeth Chwarae Torfaen

**Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd** - Yn Nhorfaen mae yna glybiau a darpariaethau eisoes sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon i bobl anabl. Rôl y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd yw sefydlu, hyrwyddo a darparu cyfleoedd chwaraeon a difyrrwch i bobl ag anableddau, yn bennaf ar lefel llawr gwlad, a sefydlu peirianwaith ar gyfer datblygiad. Gall hyn gynnwys cefnogi plant a phobl ifanc anabl i fynd i glybiau chwaraeon, ond mae'n cynnwys hefyd cefnogi clybiau chwaraeon i fod yn fwy cynhwysol, er enghraifft, hyfforddi hyfforddwyr a helpu gyda phrynu offer arbenigol. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen at Ddatblygu Chwaraeon Torfaen neu Chwaraeon Anabledd Cymru

**Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen** yn cefnogi gofalwyr ifanc, gan gynnwys y rheiny sydd â thasgau gofal a chartref sylweddol oherwydd bod ganddyn nhw frawd neu chwaer ag anabledd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth un-wrth-un, grwpiau cymdeithasol, hyfforddiant, amser i fwynhau gweithgareddau mewn grŵp, eiriolaeth a seibiant preswyl, rhywun i siarad â nhw, er mwyn lleihau pryder, straen ac unigrwydd. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen at Ofalwyr Ifanc Torfaen

**Y Gwasanaeth Nam ar y Golwg (VIS**)– Mae'r gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â rhieni a phobl broffesiynol eraill i ddod â phlant â nam ar eu golwg a theuluoedd ynghyd i ddatblygu dysgu, fel y gall plant gael y sylfaen gorau posibl ar gyfer datblygiad. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen at Y Gwasanaeth Nam ar y Golwg

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen (GGiD)** – Mae GGiD Torfaen yn cadw gwybodaeth fanwl am ofal plant yn lleol, gan gynnwys Cychwyn Cadarn a grwpiau rhieni a phlant bach. Mae ganddyn nhw hefyd amrywiaeth eang o wybodaeth i gefnogi pobl ifanc, rhieni a darpar rieni ac yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â gofal plant ar:
Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen

## 3. Cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd ag angen am lefel uchel o gefnogaeth

Mae'r rhain ar gael i blant a theuluoedd sydd wedi eu hasesu fel rhai sydd ag angen am wasanaeth arbenigol gan Dîm Plant Anabl y Cyngor neu’r GIG. Fe'u darperir i blant a theuluoedd gyda'r anghenion mwyaf cymhleth ac maen nhw'n cynnwys gwasanaethau yn neu i ffwrdd o gartref y plentyn a gallent fod â gofalwyr teuluol neu gyda gweithwyr cymorth unigol i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol. Oherwydd natur rhai o'r gwasanaethau yma, gall fod yna restr aros i'w defnyddio.

**Asesiad Gofal Cymdeithasol**
Fel rhiant plentyn ag anabledd, eich hawl chi yw gofyn am asesiad o anghenion eich plentyn gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol. Yn Nhorfaen, rydym yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gydag asiantaethau eraill, i blant a phobl ifanc sydd:

- Yn unol â'r meini prawf cymhwyster Plant â Chymhwyster Anabledd am Gefnogaeth

Bydd y broses asesu, a gwblheir gan weithiwr cymdeithasol, yn penderfynu a yw eich plentyn yn gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac yn ein galluogi i weld yn union pa fath o gefnogaeth y mae ei hangen ar eich plentyn. Efallai bydd angen i ni ymgynghori â phobl broffesiynol ym meysydd iechyd ac addysg ac asiantaethau er mwyn cael y darlun mwyaf eglur o anghenion eich plentyn.

Unwaith y byddwn wedi cadarnhau bod eich plentyn yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gan y Tîm Plant Anabl, byddwn y creu Cynllun Gofal a Chefnogaeth unigol sydd yn nodi pa fath o wasanaethau cymorth sydd angen arnoch chi a'ch plentyn. Bydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion eich plentyn.
I drefnu asesiad o anghenion eich plentyn bydd angen i chi gysylltu â Chanolfan Gofal Cwsmeriaid Cyngor Torfaen ar 01495 762200.

Mae yna amrywiaeth o ddewisiadau o seibiannau byr ar gael gan Ofal Cymdeithasol Torfaen, gan ddibynnu ar eich dymuniadau ac anghenion eich plentyn, gan gynnwys

**Seibiannau byr mewn teulu** – Darperir y rhain gan ofalwyr maeth sydd wedi eu cymeradwyo yn benodol i gynnig seibiant byr i blant anabl. Mae'r gofalwyr maeth yma wedi eu hasesu'n drylwyr, a, fel ein gofalwyr maeth i gyd, wedi eu gwirio trwy'r GDG. Gall seibiannau byr, gan gynnwys aros dros nos, am hyd at chwe wythnos y flwyddyn, gael eu trefnu gan ddibynnu ar angen a aseswyd

Mae pob seibiant gyda theulu yn cael eu trefnu gan y Tîm Plant Anabl, felly bydd angen i chi siarad â'ch rheolwr gofal os ydych chi am drefnu un i'ch plentyn.

**Tafarn Newydd**
Mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Tafarn Newydd yn darparu gwasanaeth amlasiantaeth i blant a theuluoedd sy'n hyrwyddo ac yn cynyddu datblygiad plant anabl rhwng 0-18 oed, gan gynnwys plant 0 - 4 sy'n aros am ddiagnosis. Maen nhw'n derbyn atgyfeiriadau gan berson proffesiynol sydd wedi nodi angen y gall eu gwasanaethau eu diwallu. Caiff atgyfeiriadau eu hystyried gan banel Mynediad Amlasiantaeth sy'n argymell pa agwedd o'u gwasanaeth fyddai'n diwallu anghenion y plentyn orau.

Mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Tafarn Newydd wedyn yn gwneud cysylltiad cychwynnol ac asesiad atgyfeiriad sy'n asesu pa mor addas ydyn nhw i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r asesiad yn nodi meysydd o ddatblygiad plant, cefnogaeth i'r teulu, ac yn cynnwys materion diogelu. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael o Dafarn Newydd yn cynnwys:
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â 01495751567 est 2

**Sesiynau blynyddoedd cynnar chwarae yn ystod y dydd a datblygiad a chyn y cyfnod sylfaen i blant 4 oed ac iau** - mae atgyfeiriadau'n cael eu cyfeirio at reolwr y Blynyddoedd Cynnar, a fydd yn trafod gyda phobl broffesiynol perthnasol ac mae'r asesiad yn cael ei gwblhau yn ystod y tri mis cyn adolygiad er mwyn penderfynu a fydd y plentyn yn parhau'n agored i'r gwasanaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar a fydd yn parhau at drosglwyddiad i'r ysgol. Defnyddir y lleoliad Blynyddoedd Cynnar i bobl broffesiynol allanol gwblhau eu hasesiadau ac i waith gael ei gwblhau gyda theuluoedd i gefnogi'r broses o ddiagnosis.

**Gwasanaeth seibiannau byr dydd Sadwrn a dydd Sul** – darperir i blant a phobl ifanc anabl gan gynnwys pobl ifanc gydag Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd ac anghenon iechyd corfforol ac ymddygiadol cymhleth 4-18 oed. Mae hyn yn cynnwys cyfle i blant a phobl ifanc gymdeithasu â'u ffrindiau, cael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis gyda gweithwyr cymorth mewn lleoliad diogel ac ysgogol yng nghanolfan blant Tafarn Newydd neu allan yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar

| |
|---|
| ganlyniadau a nodir gan bobl broffesiynol a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth seibiannau byr hefyd yn rhoi seibiant i rieni a gofalwyr. Mae sesiynau dydd Sadwrn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n trosglwyddo at wasanaethau oedolion - Mae pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i ehangu a datblygu eu bywyd ymarferol a'u sgiliau cymdeithasol dan oruchwyliaeth staff naill ai yn neu'r tu allan i'w cymuned leol. Mae gwasanaeth dydd Sul yn cynnig cymorth atal trwy ymyrraeth gynnar i leihau'r risg o chwalfa deuluol trwy ddarparu seibiant byr ochr yn ochr â chyflwyno strategaethau i helpu i reoli gofal pobl ifanc, sy'n gallu cael eu trosglwyddo gan deuluoedd yn y cartref a'r gymuned. Mae pobl ifanc wedyn yn cael eu cau pan fydd deilliant wedi ei gyrraedd neu'n cael eu trosglwyddo i wasanaeth dydd Sadwrn i gynyddu ystod eu sgiliau os oes yna angen parhaus am y gwasanaeth. Mae atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaeth dydd Sadwrn yn digwydd trwy Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.<br><br>Mae'r gwasanaeth dydd Sul trwy atgyfeiriad Tîm Plant ag Anabledd CBS Torfaen yn unig. Mae'r atgyfeiriadau i gyd yn cael eu hasesu gan reolwr cofrestredig gwasanaeth Tafarn Newydd y tu allan i'r ysgol; trwy asesiad cyfannol sy'n casglu gwybodaeth gan y teuluoedd a phobl broffesiynol mewn nifer o asiantaethau. |
| |
| **Gwasanaeth Gwarchod** - Mae Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Tafarn Newydd yn cynnig gwasanaeth gwarchod hyblyg i blant anabl 4 -18 oed sy'n byw yn Nhorfaen ac mae atgyfeiriadau'n dod yn syth o'r Tîm Plant Anabl. Mae ganddyn nhw dîm o staff ymroddgar a hyfforddedig sy'n cynnig oriau penodol o Wasanaeth Gwarchod i deuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio, er mwyn diwallu angen a nodir. Gellir cyflenwi'r gwasanaeth yma allan yn eu cymuned neu o Dafarn Newydd. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cefnogi teuluoedd a helpu i leihau'r perygl o chwalfa deuluol trwy roi seibiant byr yn rheolaidd, gan gyrraedd deilliannau a aseswyd ar yr un pryd. |
| |

**Taliadau Uniongyrchol**

Mae taliadau uniongyrchol, at gyfer anghenion gofal cymdeithasol, yn galluogi rhieni plant anabl sy'n gymwys i gael gwasanaeth i drefnu gofal a gwasanaethau drostyn nhw eu hunain yn lle eu derbyn yn uniongyrchol gan eu cyngor lleol.

Ar ôl asesiad, gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gofal personol, seibiannau byr a chyfleoedd hamdden.

Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol dim ond am wasanaethau sy'n diwallu'r anghenion a ddisgrifir yn asesiad y plentyn. Mae yna rai gwasanaethau na ellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar eu cyfer, er enghraifft, i dalu am wasanaethau iechyd neu dai.

Mae gan bobl ifanc anabl sy'n 16 a 17 oed hawl i dderbyn eu taliadau uniongyrchol nhw eu hunain a gallan nhw wedyn gael fwy o ddewis a rheolaeth mewn perthynas â'u trefniadau gofal trwy'r taliadau uniongyrchol; mae'r cynllun hefyd yn cefnogi byw'n annibynnol. Mae taliadau uniongyrchol ar gael hefyd i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc 16 a 17 oed. Os byddwch yn dewis defnyddio taliadau uniongyrchol, byddwch wedyn yn rôl y cyflogwr a'ch staff chi fydd y bobl sy'n rhoi gofal a chefnogaeth i'ch plentyn. Er bod hyn yn swnio'n frawychus, mae llawer o deuluoedd nawr yn dewis taliadau uniongyrchol er mwyn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd iddyn nhw.

Rhoddir mwy o wybodaeth a chefnogaeth barhaus gan Ddarparwr Cymorth Taliadau Uniongyrchol, y Tîm Byw’n Annibynnol [Gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol]

**3.4 Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol i Blant (GNCB)**

Tîm o Nyrsys Plant Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yw'r GNCB sy'n rhoi gofal nyrsio a chefnogaeth tymor byr a thymor hir i blant / pobl ifanc sydd â statws gofal parhaus i blant.

Gall unrhyw berson proffesiynol o fewn iechyd, addysg neu'r awdurdod lleol gwblhau atgyfeiriad i'r GNCB ar gyfer statws gofal parhaus i blant. Serch hynny, mae angen caniatâd rhieni i ymgymryd â’r broses. Gall rhieni a gofalwyr sydd wedi eu gollwng yn rhydd o'r GNCB o'r blaen hefyd wneud atgyfeiriad uniongyrchol os yw anghenion y plentyn / person ifanc wedi newid / gwaethygu neu os yw teuluoedd sydd eisoes wedi gwrthod cefnogaeth, wedi newid eu meddwl.

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael o'r GNCB yn cynnwys:

**Darperir cefnogaeth nyrsio medrus** mewn ysgolion arbennig a nodwyd i gefnogi anghenion plant ag anghenion iechyd fynd at addysg. Serch hynny, ble mae gan blentyn / person ifanc anghenion gofal parhaus sy'n gofyn am gefnogaeth benodol mewn ysgol brif ffrwd, bydd y GNCB yn cysylltu â'r awdurdod lleol, addysg, pobl broffesiynol mewn iechyd , plentyn / person ifanc a theulu / gofalwyr i sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael ei chyflenwi gan alluogi mynediad at addysg.

Ar ôl asesiad unigol o anghenion y plentyn / person ifanc, mae'r GNCB yn rhoi hyfforddiant i staff addysgol i berfformio tasgau y mae eu hangen i fynd ar deithiau ysgol.

**Gellir darparu cefnogaeth nyrsio medrus** os oes gan blentyn anghenion iechyd wedi eu nodi sy'n gofyn am gefnogaeth nyrsio ar drafnidiaeth i ac o'r ysgol, ystyrir hyn ar sail unigol.

**Gellir darparu cefnogaeth nyrsio medrus** i blentyn / person ifanc yn eu cartref sy'n bodloni statws gofal parhaus plant i gefnogi teuluoedd i gyflenwi ymyraethau iechyd parhaus. Rhoddir y gofal fel arfer mewn blociau 5 neu 10 awr o gefnogaeth ac mae'n cael ei ddyfarnu ar lefel eithriadol o anghenion iechyd parhaus sydd wedi eu hasesu.

**Rhoddir cefnogaeth nyrsio medrus** yng nghynlluniau chwarae Canolfan Blant Serennu fel y gall plant ag anghenion iechyd parhaus gael y gwasanaethau yma sy'n rhoi seibiant i deuluoedd. Ble gofynnwyd am gynllun chwarae ychwanegol neu benodol ar gyfer plentyn / person ifanc unigol, byddai'r GNCB yn ystyried y cais. Mae'r GNCB yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, pobl broffesiynol mewn iechyd, y plentyn / person ifanc a theuluoedd / gofalwyr i gefnogi mynediad ehangach at gynlluniau chwarae.

**Tŷ Hafan (Hosbis Plant Cymru) –** dyma hosbis i blant sy'n canolbwyntio ar y teulu yn Sili ym Mro Morgannwg. Mae Tŷ Hafan yn darparu seibiannau byr, gofal lliniarol a diwedd oes i blant sy'n dioddef gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd (y rheiny sy'n golygu nad oes disgwyl i'r plentyn neu berson ifanc gyrraedd 19 oed). Gall plant a'u teuluoedd dderbyn cefnogaeth am nifer o flynyddoedd, neu am ychydig o ddyddiau ar ddiwedd oes. Pa beth bynnag, mae Tŷ Hafan yn rhoi cariad, gofal a chefnogaeth i'r plant a'u teuluoedd am ddim. Gall unrhyw un wneud atgyfeiriadau, e.e. rhiant, person proffesiynol neu gyfaill i'r teulu, serch hynny rhaid i ganiatâd y rhiant neu ofalwr gael ei roi cyn y gall yr atgyfeiriad fynd yn ei flaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.tyhafan.org

## Yr hyn yr ydych chi wedi dweud am ein gwasanaethau

**Pan ofynnwyd pa effaith yr oedd cynllun chwarae'r Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol i Blant wedi cael ar weddill y teulu:**

“Mae e'n cael cymaint o fwynhad a chefnogaeth ddiamod gan bawb. Mae'n help enfawr i'r teulu yn ystod y gwyliau.”

“Rhowch seibiant i mam, i fy ngalluogi i dreulio amser gyda brodyr a chwiorydd a gwneud gweithgareddau, gan ddysgu iddyn nhw nofio”

“Rydym wedi gallu mynd i ffwrdd am y diwrnod a gwneud pethau a fyddai amhosibl neu anodd eu gwneud”.

**Pan ofynnwyd am Daliadau Uniongyrchol:**
“Mae'n galluogi mam i dreulio amser gyda'i merch arall ac yn rhyddhau amser iddi hi gael ei dreulio gyda'i gŵr”

“Hoe – braf i'r teulu ac yn braf i'r mab gael diddordebau allanol”


**Y Tîm Plant Anabl**
Gwasanaethau Plant ac Oedolion
Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Ffôn: 01495 762200
E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk
www.torfaen.gov.uk